

Gwrandawriad cyn penodi

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Tachwedd 2022

1. Cyflwyniad

Gwaith craffu cyn penodi

1. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud ystod o benodiadau cyhoeddus ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae Pwyllgorau'r Senedd yn gwneud gwaith craffu cyn penodi ar rai penodiadau i wella atebolrwydd a thryloywder y broses o wneud penodiadau cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am wrandawiadau cyn penodi ar gael ar [wefan y Senedd](#).

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

2. Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) (y Ddeddf) yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru (y Comisiynydd).

3. Caiff y Comisiynydd ei benodi am gyfnod o saith blynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllideb i'r Comisiynydd – sef £1.509 miliwn ar gyfer 2022-23.

4. Dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd, fel y nodir yn y Ddeddf, yw:

- hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn arbennig er mwyn—
 - i. gweithredu fel gwarchodwr gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, a



ii. annog cyrff cyhoeddus i roi rhagor o ystyriaeth i effaith hirdymor yr hyn a wnânt, a

- at y diben hwnnw i fonitro ac asesu cyflawniad yr amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus.

5. Deiliad presennol y swydd yw Sophie Howe. Bydd ei chyfnod o saith mlynedd yn y swydd yn dod i ben ym mis Chwefror 2023.

2. Y broses recriwtio

6. Hysbysebwyd y swydd rhwng 15 Gorffennaf a 15 Awst 2022 drwy nifer o wefannau ac ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy hysbysebion a dalwyd amdanynt ac amryw rwydweithiau rhanddeiliaid. Cafodd ymgeiswyr [becyn.gwybodaeth](#) a oedd yn cynnwys manylion am y broses recriwtio, gan gynnwys cefndir a chyfrifoldebau allweddol y rôl (gweler Atodiad A), a gwybodaeth berthnasol arall.

7. Daeth 55 o geisiadau i law. Cafodd pob cais ei drafod a'i asesu gan y Panel Asesu Cynghorol yn erbyn y meini prawf, a chafodd pob cais ei drafod mewn cyfarfod sifftio hefyd. Ategwyd y drafodaeth yn ystod y cyfarfod sifftio gan ymarfer cyn sifftio gan swyddogion, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y panel, gyda'r nod o dynnu sylw'r Panel at ymgeiswyr a oedd yn haeddu sylw pellach yn ystod y cam sifftio. Diben yr ymarfer cyn sifftio oedd cefnogi trafodaethau'r Panel Asesu Cynghorol. Ni chafodd ceisiadau eu diystyru ac ni wnaed penderfyniadau yn ystod y cam hwn. Ar ôl trafod yr holl ymgeiswyr, daeth y Panel i'r casgliad bod 10 ohonynt yn addas i fynd ymlaen at y sesiwn i randdeiliaid a'r cam cyfweld.

8. Fel rhan o'r broses ddethol, cynhaliwyd sesiwn i randdeiliaid ar gyfer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ddiwedd mis Medi. Roedd y rhanddeiliaid yn dod o Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd pob sesiwn i randdeiliaid yn para cyfanswm o 30 munud a gofynnwyd i ymgeiswyr arwain trafodaeth ar "Hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy – sut i gyflymu camau gweithredu".

9. Ar ôl hynny, cynhaliodd y Panel gyfweiliadau â phob un o'r 10 o ymgeiswyr ym mis Hydref a chytunwyd ar 5 ymgeisydd i'w hargymell i'r Prif Weinidog fel ymgeiswyr y gellid eu penodi.

Yr ymgeisydd a ffefrir

10. Yr ymgeisydd a ffefrir gan y Prif Weinidog ar gyfer y rôl yw Derek Walker.

11. Ar hyn o bryd, Derek Walker yw Prif Weithredwr Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru gynt), sy'n sefydliad dielw. Yn y gorffennol, mae Derek wedi bod yn Bennaeth Materion Allanol i'r Gronfa Loteri Fawr, a chyn hynny treuliodd bron i bum mlynedd fel Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd Cyngres yr Undebau Llafur (TUC).

3. Y gwrandawriad cyn penodi

12. I helpu i lywio'r gwrandawriad, rhoddodd Llywodraeth Cymru bapur briffio i ni ar y broses recriwtio a chopi o'r pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr.¹ Rhannwyd ffurflen gais, CV a datganiad personol yr ymgeisydd a ffefrir yn breifat â'r Pwyllgor hefyd.

13. Cynhaliwyd y gwrandawriad ddydd Llun 21 Tachwedd 2022². Ymunodd aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus â'r cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd.³

14. Holwyd yr ymgeisydd ar nifer o feysydd, gan gynnwys:

- gwybodaeth a phrofiad;
- cymhelliant a blaenoriaethau;
- gwaith craffu ac annibyniaeth;
- perthnasoedd gwaith; a
- mesur llwyddiant.

15. Mae trawsgrifiad llawn o'r cyfarfod ar gael ar dudalen we'r Pwyllgor.⁴

¹ Papur briffio gan Lywodraeth Cymru; pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

² [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 21 Tachwedd 2022](#) – yn unol â'r confensiwn, cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds AS ar gyfer pob eitem a oedd yn gysylltiedig â'r gwrandawriad cyn penodi

³ Aelodau o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a ymunodd â'r sesiwn: Mark Isherwood AS a Natasha Ashgar AS

⁴ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 21 Tachwedd 2022](#)

4. Safbwynt y Pwyllgor

16. Rydym yn nodi'r ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog ar gyfer rôl y Comisiynydd ac yn croesawu'r cyfle i graffu arno fel rhan o'r broses cyn penodi.

Casgliad 1. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm i beidio â chymeradwyo'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Roedd un Aelod yn anghytuno.

17. Fodd bynnag, os caiff ei benodi, byddem yn annog yr ymgeisydd i ystyried y materion a ganlyn wrth iddo ddechrau ar ei gyfnod yn y swydd:

- **Ffyrdd o weithio:** i wneud defnydd effeithiol o amser ac adnoddau, bydd yn rhaid i'r darpar Gomisiynydd, os yw'n llwyddiannus, edrych ar sut y gall swyddfa'r Comisiynydd gyflawni ei hystod eang o swyddogaethau yn y ffordd orau. O ganlyniad, disgwyliwn i'r darpar Gomisiynydd nodi ei weledigaeth a'i ddull cyffredinol o ymdrin â'r rôl ac unrhyw newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i weithrediad a ffyrdd o weithio swyddfa'r Comisiynydd o fewn chwe mis iddo ddechrau yn y rôl.
- **Amcanion a chanlyniadau:** i gyd-fynd â gweledigaeth gyffredinol, dylai'r darpar Gomisiynydd nodi'r canlyniadau yr hoffai eu sicrhau yn ystod ei gyfnod yn y swydd a'r dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig. Dylid cwblhau'r gwaith hwn o fewn blwyddyn gyntaf ei gyfnod yn y swydd.
- **Perthynas â Llywodraeth Cymru:** er iddo gael ei benodi gan Weinidogion Cymru, rôl y Comisiynydd yw rhoi cyngor cadarn a herio Llywodraeth Cymru ac eraill. I hyrwyddo tryloywder a hwyluso'r gwaith o graffu ar y berthynas rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru, dylai'r ymgeisydd ystyried sut y bydd yn gweithio gyda Gweinidogion, gan gynnwys sut y caiff cyfarfodydd a chyfathrebiadau eu cofnodi a'u datgelu. Un dull posibl fyddai ymrwymo i ddatgelu'n llawn ac yn dryloyw unrhyw fusnes sy'n cynnwys Gweinidogion Llywodraeth Cymru a/neu swyddogion Llywodraeth Cymru drwy gyhoeddi manylion cyfarfodydd, gohebiaeth a chyfathrebiadau eraill yn rhagweithiol bob chwe mis neu bob chwarter.
- **Gwaith rhyngwladol a gwaith domestig:** er bod yr agwedd ryngwladol ar waith y Comisiynydd wedi bod yn bwysig, dylai'r darpar Gomisiynydd ystyried a lwyddwyd i daro'r cydbwysedd cywir rhwng gweithgareddau rhyngwladol a gweithgareddau domestig yn y gorffennol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio'r ffordd anghyson

y mae'r Ddeddf wedi'i chymhwyso a'i gweithredu gan gyrff cyhoeddus datganoledig ledled Cymru, sy'n fater sydd wedi'i amlygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

18. Hoffem ddiolch i'r ymgeisydd am ymgysylltu â ni ac edrychwn ymlaen at gyfleoedd pellach i graffu ar ei waith yn ystod y Senedd hon.

Y broses cyn penodi

Casgliad 2. Rydym wedi canfod bod yr ymarfer cyn penodi hwn wedi codi cwestiynau ehangach ynghylch tryloywder ac effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer gwaith craffu cyn penodi. Cytunwn fod y cwestiynau hyn yn haeddu ystyriaeth bellach a nodwn fod y Cadeirydd wedi cytuno i'w codi gyda chydweithwyr yn Fforwm y Cadeiryddion fel cam cyntaf.

Atodiad A

Mae'r disgrifiad swydd yn nodi y bydd cyfrifoldebau allweddol y rôl yn cynnwys:

- Roi cyngor neu gymorth i'r canlynol:
 - Corff cyhoeddus;
 - Bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (mewn perthynas â pharatoi ei gynllun llesiant lleol); ac
 - Unrhyw berson arall y mae'n credu ei fod yn gweithredu, neu'n ceisio gweithredu, mewn ffordd a allai gyfrannu at nodau llesiant Cymru.
- Annog arferion gorau a hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith cyrff cyhoeddus i helpu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion llesiant mewn modd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd a chydag eraill os gallai hynny eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion llesiant a rhannu'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith cyrff cyhoeddus o'r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Cynnal adolygiad i nodi i ba raddau y mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
- Ymgymryd ag ymchwil neu astudiaeth i ystyried pa mor gyson yw nodau a dangosyddion llesiant â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yr egwyddor ei hun, ac unrhyw beth sy'n ymwneud ag effeithiau ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Rhoi cyngor i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rhaid i'r Comisiynydd wneud y canlynol:

- Llunio a chyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 12 mis cyn pob etholiad Senedd, sy'n cynnwys ei asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori ag ystod eang o sefydliadau a chynrychiolwyr wrth lunio'r adroddiad.

- Llunio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol a fydd yn cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd gan y Comisiynydd, dadansoddiad o effeithiolrwydd y camau hynny, crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd, a blaenraglen waith. Gall yr Adroddiad Blynyddol gynnwys asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Rhoi sylw i waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol wrth gynnal adolygiadau a pharatoi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.